**P-05-993 Gwnewch y sector manwerthu'n gwbl hygyrch i bobl anabl**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Angharad Paget-Jones, ar ôl casglu cyfanswm o 173 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:

Yn ystod pandemig Covid-19, mae llawer o siopau hanfodol wedi defnyddio dulliau diogelwch sydd wedi eithrio llawer o bobl anabl. Ni chafodd pobl â nam ar y golwg eu cynnwys yn y slotiau siopa blaenoriaeth cyn diwedd mis Mai. Mae'r holl arwyddion a marciau llawr yn bur weledol, sy'n dda i ddim os oes gennych olwg gwan neu ddim golwg. Nid yw systemau un ffordd mewn siopau'n ddigon llydan i ddefnyddwyr cadair olwyn ac mae cilfachau i'r anabl yn cael eu defnyddio fel lle i bobl giwio.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio, mae pobl anabl yn wynebu mwy o heriau. Mae bysiau a threnau wedi selio cilfachau i'r anabl, ni all pobl fyddar ddarllen gwefusau gyda phobl yn gwisgo mygydau wyneb ac, wrth agor bariau, caffis a bwytai, bydd mwy o seddi awyr agored yn bosibl. Mae hyn yn peri mwy o risg i bobl anabl gan fod seddi awyr agored, y rhan fwyaf o'r amser, yn cymryd dros le cyhoeddus ac yn achosi perygl a rhwystr.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Aberafan
- Gorllewin De Cymru